Gwefan:
www.ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

e-bost:
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Ysgol Gymraeg
Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn/*Tel*: 01970 617613 Ffacs/*Fax*: 01970 636742
Prifathro/*Headteacher*: Mr R. Clive Williams

**Holiadur Rhieni –** Diolch am eich sylwadau parthed yr holiadur ac am ein helpu ni i adnabod agweddau i wella'r ysgol. Mi fyddwn yn cymryd eich sylwadau o ddifrif wrth i ni wella ein hysgol. Amgaeaf ganlyniadau'r holiaduron a ddosbarthwyd.

**Gwisg Ysgol** - Dengys holiadur y rhieni fod 91% o'r rhieni o blaid gwisg ysgol a 9% yn erbyn. Mi fydd y Gymdeithas Rieni ac Athrawon a'r Llywodraethwyr yn bwrw mlaen i drafod y mater ym mhellach yn ystod y tymor. Os oes gennych unrhyw sylwadau pellach am wisg ysgol yna cysylltwch â mi yn yr ysgol cyn dydd Gwener, Ebrill 25ain.

**Cyngerdd Haf** – **NEWID DYDDIAD**. Deallwn bellach fod 'Race for Life' yn cael ei chynnal eleni ar nos Fercher, Mehefin 11eg. Gan ein bod yn sylweddoli fod nifer am gymryd rhan yn y digwyddiad codi arian yma rydym wedi newid dyddiad y Cyngerdd Haf i **Nos Fawrth, Mehefin 17eg am 6.30.**

**Diwrnod Coch Gwyn a Gwyrdd yr Urdd** – Mae Pwyllgor yr Urdd, cylch Aberystwyth wedi trefnu diwrnod arbennig ar ddydd Gwener, Ebrill 18fed i godi arian i fudiad yr Urdd. Gwahoddir y disgyblion i wisgo coch, gwyn neu wyrdd i'r ysgol ddydd Gwener. Mi fydd y staff a disgyblion Blwyddyn 6 yn trefnu gemau i'r plant ar y cae yn ystod y prynhawn. Gofynnir yn garedig am gyfraniad o £1.00 tuag at y digwyddiad.

**Murlun Mrs Margaret Thomas** – Yn dilyn trafodaethau gyda'r Gymdeithas Rieni ac Athrawon mae'r ysgol wedi llwyddo i gael grant o £5000 gan 'Arian i bawb Cymru'. Y bwriad yw creu murlun ar ffurf mosaic parhaol o'r llefydd y byddai Mrs Thomas yn ymweld â nhw yn ystod ei thaith flynyddol gyda disgyblion Blwyddyn 3 o gwmpas y dref. Mi fydd yr artist Bethan Clwyd sy'n gyn ddisgybl i'r ysgol Gymraeg hefyd yn cyfuno cerddoriaeth a chanu i fewn i'r gwaith terfynol. Mi fydd Bethan Clwyd yn cychwyn ar y broses o ddylunio gyda disgyblion Blwyddyn 3 yfory ond mi fydd hefyd yn defnyddio syniadau gan weddill disgyblion Cyfnod Allweddol 2.
Y nôd yw creu murlun sydd yn dathlu cyfraniad Mrs Thomas i'r ysgol ac hefyd a fydd o ddefnydd addysgol i ddisgyblion y dyfodol.

**Llyfrgell Adnoddau y Cyfnod Sylfaen** – Mae nifer o gryno ddisgiau newydd ar gael yn y llyfrgell adnoddau o ddydd Gwener ymlaen – cofiwch alw i fewn i fenthyg llyfr neu gryno ddisg!

**Os oes gennych unrhyw bryderon am addysg eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith**

**R C Williams, Pennaeth 16/04/08**